

Panel Ymgynghorol yr Iaith Gymraeg

Welsh Language Advisory Panel

12 Gorffennaf 2016 am 2 o'r gloch
Ystafell Gynadleda Democrataidd, Neuadd y Sir

COFNODION A PHWYNTIAU GWEITHREDU

Yn bresennol:

Enw:		Grŵp / Swydd:
Cyng. Mair Stephens	MS	Aelod Bwrdd Gweithredol (Cadeirydd)
Cyng. Cefin Campbell	CC	Plaid Cymru (Is-gadeirydd)
Cyng. Deryk Cundy	DC	Llafur
Cyng. Peter Hughes Griffiths	PHG	Plaid Cymru
Cyng. Gwyn Hopkins	GH	Plaid Cymru
Cyng. Joseph Davies	JD	Annibynnol
Cllr. Ryan Bartlett	RB	Llafur
Swyddogion		
Gwyneth Ayers	GA	Rheolwr Polisi a Phartneriaeth
Myfanwy Jones	MJ	Swyddog Polisi'r Iaith Gymraeg
Paul Thomas	PTh	Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl)

Rhif eitem	Testun a phwyntiau gweithredu:	Yn gyfrifol:
1.	<p>Croeso ac Ymddiheuriadau</p> <p>Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cynghorydd Mair Stephens.</p> <p>Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cynghorydd Hugh Richards, Cynghorydd Edward Thomas, Cynghorydd Calum Higgins, Wendy Walters a Llinos Evans.</p>	
2.	<p>Cofnodion y cyfarfod diwethaf</p> <p>Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod.</p> <p>Nodwyd y diweddariadau canlynol –</p> <p>Eitem 3 – Nodwyd bod neges e-bost wedi ei ddanfon at Dafydd Llywelyn, Comisiynydd Heddlu a Throsedd Dyfed Powys o ran hyrwyddo'r Gymraeg ac yn gofyn iddo am ei sylwadau ar y Strategaeth Hybu ddrafft.</p> <p>Cymraeg i Oedolion - Cafwyd esboniad gan GA am sefyllfa Cymraeg i Oedolion. Enillodd Prifysgol Aberystwyth y tendr i ddarparu cyrsiau Cymraeg i Oedolion</p>	

yn Sir Gaerfyrddin ar ddechrau 2016. Ond ers hynny, gan nad oedd Aberystwyth wedi arwyddo'r gytundeb, gofynnwyd i Gyngor Sir Gâr i ddarparu yn Sir Gâr am flwyddyn o fis Medi 2016-Awst 2017. Gan mai dim ond un rhan o dair o'r ddarpariaeth a gyniwyd i Sir Gâr, penderfynwyd cytuno i'r cynnig ond ar yr amod ein bod yn gwneud y ddarpariaeth gyfan yn y sir. Ni wyddwn beth sy'n digwydd ar hyn o bryd. Mae'n sefyllfa rhwystredig i ni fel Cyngor. Mae'r ddarpariaeth fewnol hefyd yn cael ei rwystro o ganlyniad i'r trafferthion yn y ddarpariaeth gymunedol.

Eglurodd PTh fod gan y Cyngor 25 aelod o staff sy'n darparu Cymraeg i oedolion ar hyn o bryd. Mae trefniadaeth TUPE yn berthnasol yn ôl Adnoddau Dynol, ac yn ôl cyngor cyfreithiol. Mae cadarnhad wedi cyrraedd y bore yma y bydd y Cyngor bellach yn darparu am flwyddyn, a bydd hyn yn ein galluogi i gadw ein staff ac yn ein rhoi ni mewn sefyllfa gadarnhaol i ddarparu yn y dyfodol.

Nododd CC a RB fod gan drigolion y sir sy'n dysgu Cymraeg bryderon dilys am sefyllfa'u cyrsiau ym mis Medi. Nodwyd hefyd ei fod yn hwyr i drefnu ac yn fwy byth i farchnata cyrsiau nawr. Awgrymodd ei fod yn galonogol ein bod yn mynd i ddarparu, ond nododd y bydd o bosib canlyniadau pellach cyfreithiol yn dilyn gan nad ydy Prifysgol Aberystwyth yn fodlon gyda'r sefyllfa chwaith.

Eglurodd GA y dylasai'r Llywodraeth fod wedi ystyried trefniadau TUPE yn y tendr gwreiddiol. Eglurodd ymhellach fod hyn yn effeithio ar ein darpariaeth mewnol yn ogystal.

Eitem 4 – Trafodwyd y Polisi Defnydd Mewnol gan y Gweithgor Staff ar 14 Mehefin a cytunodd pawb ar y cynnwys.

Nodwyd bod y Fforwm Cysylltiadau Cyflogeion wedi trafod y polisi ar 17 Mehefin ac wedi cefnogi'r polisi mewn egwyddor ond wedi gwneud cais i'r cyngor i drafod gyda Llywodraeth Cymru o ran ariannu'r polisi yn deg.

Gwnaeth CC y sylw eu bod o bosibl wedi camddeall gan na ddylai cost i fod wrth yr iaith Gymraeg yn fwy nag y dylai wrth Saesneg wrth weinyddu.

Fe fydd y Polisi yn cael ei ystyried gan y tîm corfforaethol cyn mynd yn ei flaen i'r system ddemocrataidd.

Eitem 5 – Nodwyd bod cwynion wedi'u derbyn ynghylch darpariaeth Hyfforddiant i Lywodraethwyr ac yn benodol yr hyfforddiant 'Diogelwch ar y We'. Cysylltodd y tîm polisi gyda'r isadran Llywodraethu Ysgolion ynghylch yr hyfforddiant a nodwyd mai cwmni allanol oedd yn darparu ar ran y cyngor ac mai Saesneg oedd cyfrwng y gwaith. Esboniwyd i'r adran bod angen ystyried y Safonau wrth gomisiynu gwaith yn allanol a gofynnwyd am gopi o'r asesiad angen am ddarpariaeth hyfforddiant cyfrwng Cymraeg yn unol â Safonau 84 ac 86.

Mae'r isadran yn adolygu'r ddarpariaeth ar hyn o bryd, a hynny yn dilyn adborth gan nifer o gyrff Llywodraethu. Canslwyd yr hyfforddiant 'Diogelwch

	<p>ar y We' gan mai un person yn unig oedd wedi cofrestru.</p> <p>Nododd PHG fod cwrs wedi ei gynnig i lywodraethwyr i ddysgu Cymraeg ond gan mai dim ond 2 fynychodd, canslwyd yr hyfforddiant, er siom. Awgrymodd MS fod angen edrych ar gyfathrebu gyda'r llywodraethwyr a nododd RB fod cyrsiau cyfrwng Cymraeg i lywodraethwyr yn tueddi i gael eu canslo wedi iddynt gael eu cynnig.</p> <p>Awgrymwyd y byddai modd gwneud gwaith pellach gyda'r Adran Cefnogi Llywodraethwyr, fel y gwnaed gyda hamdden gan gychwyn drwy ofyn iddyn nhw am fwy o ddata?</p> <p>Gwersi Nofio: Eglurodd MS ei bod wedi cael 2 gyfarfod gyda'r Adran Hamdden. Mae'r cwestiwn o ran dewis iaith yn cael ei ofyn wrth gofrestru erbyn hyn. Mae cynnydd yn digwydd ac mae'r cyfarfodydd yn digwydd yn gyson a'r gwersi nofio ar yr agenda o hyd, felly fe fyddan nhw'n adrodd ar hyn. Nododd PTh fod tiwtoriaid nofio cyfrwng Cymraeg wedi eu recriwtio yn ddiweddar.</p>	Tîm Polisi
3.	<p>Strategaeth Hybu</p> <p>Cafwyd trafodaeth fanwl ar y Strategaeth Hybu a chyflëwyd y pwyntiau isod:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Adran 2. Byddai'n beth da gosod, 'Strategaeth Addysg cyfrwng Cymraeg y Llywodraeth uwch ben 'Cynllun Strategol y Gymraeg mewn addysg Sir Gâr' er mwyn pwysleisio mai o'r cyntaf ddaeth yr ail - Adran 3. Byddai'n cryfhau ein gweledigaeth petaem yn pwysleisio ein dyhead i estyn allan i gynulleidfa eang er mwyn denu trigolion i ddod yn ddwyieithog. Ategwyd hynny gan y Cynghorydd DC o ran pwysleisio'r angen i greu dinasyddion dwyieithog o fewn y sir. - Adran 4. Angen ychwanegu 'Fforwm Strategol yn Gymraeg mewn addysg' ac yn rhif 6 hefyd - Adran 7. Mae angen cysondeb o safbwynt y data yn y tablau. Bydd angen tynnu allan ychydig o fanylder meintiol a chadw'r wybodaeth ar gyfer y cam o fapio a fydd yn digwydd yng nghyfnod cyntaf y Strategaeth. - Mae angen ychwanegu darpariaeth addysg uwchradd i'r tabl cyntaf - Dylid ychwanegu dyfodiad S4C i adran 7.iii, - Dylid ychwanegu <i>Cymraeg Campus</i> a <i>Cymraeg i Blant</i> i 7.v, 	Tîm Polisi
4.	<p>Adroddiad Gweithgor ar yr iaith Gymraeg a Llywodraeth Leol</p> <p>Eglurodd GA ei bod wedi eistedd ar y Gweithgor Gweinidogol a gadeiriwyd gan Rhodri Glyn Thomas ar gais Leighton Andrews. Roedd Aelodau'r Cynulliad wedi bod yn codi pwyntiau ynglŷn a chyfle i osod lle i'r Gymraeg wrth gyflwyno'r ad-drefniadau. Roedd cynrychiolwyr o wahanol sefydliadau a chyrrff ar y Gweithgor. Fe gwrddodd y Gweithgor am gyfnod byr gan ddod i'r casgliadau sydd yn yr adroddiad. Nododd GA fod llawer o'r un themâu ac a godwyd gan y Gweithgor yr iaith Gymraeg yn Sir Gâr ac fe nododd fod hynny'n cynnig sicrwydd i ni ein bod wedi bod ar y trywydd cywir gyda'r gwaith hynny. Eglurodd nad oedd hi'n cytuno'n llwyr gyda phob un o'r argymhellion ac nac</p>	

	<p>oedd hi'n cynrychioli Cyngor Sir Gâr ar y Gweithgor, ond yn hytrach yno fel cynghorydd.</p> <p>Yn dilyn yr Etholiadau ym mis Mai 2016, cyflwynwyd yr adroddiad i Mark Drakeford fel Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol. Mae'r cyfnod ymgynghorol wedi ei ymestyn hyd nes y 9fed o Fedi i roi sylwadau os ydyn ni am.</p> <p>Gwnaeth DC y sylw nad yw'r adroddiad yn cynnwys sylw digonol i'r elfen hanfodol economaidd o gynyddu siaradwyr Cymraeg. Nododd nad gwasanaethau cyhoeddus yn unig sy'n mynd i wneud gwahaniaeth i'r Gymraeg, ond bod angen gweithio ar gyfleoedd gwaith a busnes.</p> <p>Gwnaeth PHG y sylw fod yna argymhellion cryf o dan 'economi' fodd bynnag.</p> <p>Crynhodd MS fod angen mwy o waith datblygu yn hytrach na dim ond monitro 'datblygu'.</p> <p>Nododd RB ei fod yn rhyfedd fod yr adroddiad yn enwi'r swyddi sydd angen sgiliau Cymraeg a chytunodd GA.</p> <p>Nododd CC fod yr adroddiad yn un o'r adroddiadau mwyaf gobeithiol mae e wedi ei ddarllen. Nododd fod angen atebion radical i sefyllfa'r Gymraeg, ac awgrymodd fod yr adroddiad yn cynnig rhai. Nododd fod yr argymhellion yn ymdebygu rhywfaint o'r gwaith da sydd wedi digwydd yng Nghatalwnia er enghraifft.</p> <p>Nododd fod arweinyddiaeth yn hollbwysig o safbwynt cynyddu defnydd o'r Gymraeg. Pwysleisiodd bwysigrwydd cael arweiniad o'r swyddi a nodwyd i roi'r statws dyledus i'r Gymraeg er mwyn iddo newid defnydd cyrff cyhoeddus o'r Gymraeg. Awgrymodd os oedd Cymru'n gweithredu argymhellion yr adroddiad hwn yn ystod yr 20 mlynedd nesaf, bydd y Gymraeg yn llawer mwy llewyrchus.</p> <p>Nododd MS nad yw'r adroddiad yn cyffwrdd â gwasanaethau cyhoeddus yn gyffredinol, dim ond awdurdod lleol. Gresyn na fyddai'r un cyfarwyddiadau yn cael eu rhoi i gyrff cyhoeddus eraill.</p> <p>Trafodwyd pwysigrwydd datblygu sgiliau Cymraeg o fewn swyddi cyhoeddus a nodwyd ei fod yn hollbwysig fod gennym ni ddarpariaeth broffesiynol dysgu Cymraeg i ni allu darparu hyn.</p> <p>Gofynnodd DC sut mae Cyngor Gwynedd yn gwbl ddwyieithog o gymharu â Sir Gâr, ac eglurwyd y penderfynwyd hyn yng Ngwynedd fel polisi gwleidyddol yng nghyfnod yr ad-drefnu.</p> <p>Cytunwyd y byddwn yn cynnig ymateb erbyn y 9fed o Fedi oedd yn nodi ein bod ar y cyfan yn cytuno gydag uchelgais y ddogfen a'r argymhellion, ond bod angen iddynt ddigwydd ar draws y gwasanaethau cyhoeddus yn hytrach na dim ond mewn Llywodraeth Leol.</p>	<p>Tim Polisi</p>
--	--	-------------------

<p>5.</p>	<p>Unrhyw fater arall</p> <p>Crynhodd GA:</p> <ol style="list-style-type: none"> Ein apêl i'r Comisiynydd ar y tri Safon: <p>Cafwyd ymateb ar ddechrau Mehefin ynglŷn a defnydd o offer cyfieithu i ddweud nad oedd hi'n cytuno fod y Safon yn ddilys. Fe ymatebon ni o fewn y terfyn amser gydag ymdrech i gynnwys enghreifftiau penodol o achosion lle na fyddai cyd-fynd gyda'r Safon yn rhesymol. Roedd y tystiolaeth yn dilyn yr un trywydd ac a wnaed yn y cyfnod ymgynghorol.</p> <ol style="list-style-type: none"> Cwyn a dderbyniwyd ynglŷn â chywirdeb y Gymraeg ar arwyddion Cwm Environmental. Cydnabuom bod hyn yn wir ac y byddem yn ymddiheuro ac yn newid yr arwyddion. Cawsom wybod fod y broses o archwilio yn mynd yn ei flaen beth bynnag ac mae'n bur debyg y bydd y broses yn cymryd tua 3 mis i'w gwblhau. <p>Nodwyd fod hyn yn gyfnod cynnar i'r Safonau ac eu bod wedi eu sefydlu ar y Mesur a'i cyfyngiadau ond mae swyddogion lleol yn teimlo rhwystredigaeth o achos y broses cyfreithiol ffurfiol sydd wedi ei sefydlu. Awgrymwyd na fyddai swyddogion y Comisiynydd yn dymuno gwyro oddi wrth y prosesau deddfol a bod angen i'r prosesau ddod yn fwy cyfarwydd.</p>	
<p>6.</p>	<p>Dyddiad y cyfarfod nesaf</p> <p>4 Hydref 2016 am 10 y bore yn yr Ystafell Gynadledda Democratiaidd, Neuadd y Sir – cyflwyniad gan Arweinwyr Iaith yr isadran Hamdden a Diwylliant.</p> <p>Dymunodd MS pob lwc i Gwyneth ar ran y Panel, ac eglurodd GA y bydd Helen Morgan yn rheoli'r adran yn ystod cyfnod mamolaeth Gwyneth.</p>	